PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 18 HYDREF 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Richard Cook (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Boyle, Chaundy, Gordon, Joyce, Murphy, Dianne Rees a/ac Lynda Thorne |
| : | Aelodau Cyfetholedig: Karen Dell'Armi (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr) a/ac Hayley Smith (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr) |

24 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Patricia Arlotte a Carol Cobert.

25 : DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'u cyfrifoldeb o dan Rhan 3 o God Ymarfer yr Aelodau. Datganwyd y buddiannau canlynol:

- Y Cynghorydd Iona Gordon parthed Eitem Agenda 4 ar y sail ei bod yn Gynghorydd Ward dros Lan-Yr-Afon ac yn Ymddiriedolwr ar Ganolfan Gymunedol De Glan-Yr-Afon;
- Y Cynghorydd Lynda Thorne parthed Eitem Agenda 4 ar y sail ei bod yn Gadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Fabanod Grangetown;
- Hayley Smith parthed Eitem Agenda 5 ar y sail ei bod yn cael ei chyflogi gan Barnado's o fewn Strategaeth Teuluoedd Yn Gyntaf;

Y Cynghorydd Joe Boyle parthed Eitem Agenda 4 ar y sail ei fod yn Gadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Springwood.

26 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd ar 27 Medi 2016 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

27 : CHWARAE PLANT – BRIFF CYNNYDD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Peter Bradbury (Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cymunedol, Cwmnïau Cydweithredol a Mentrau Cymdeithasol), Malcolm Stammers (Rheolwr Gweithredol, Hamdden a Chwarae), Jane Clemence (Swyddog Cymunedau Actif, Hamdden a Chwarae) a Chris Mathews (Cymdeithas y Sgowtiaid) i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet gan y Cadeirydd i wneud datganiad ac ynddo dywedodd ei fod wedi chwarae rhan ers peth amser bellach yn rhoi'r model newydd ar gyfer Chwarae Plant ar waith. Mae Grŵp Sgowtiaid Pentwyn 1st wedi cyflwyno Adroddiad Adborth yn amlinellu eu profiad o gymryd rheolaeth dros, a chynnal a chadw Canolfan Chwarae Llanedern, oddi ar ddwylo'r Cyngor, cred ei fod yn asesiad cywir o'r profiad a dylid talu sylw i'r wybodaeth a ddarparwyd wrth symud ymlaen.

Cynigiodd Chris Mathews o Gymdeithas y Sgowtiaid ei farn i'r Aelodau ar drosglwyddo'r Ganolfan i'r grŵp Sgowtiaid gan nodi ei bod yn broses hir a diffyg eglurder yn y lle cyntaf, ond unwaith i'r pwynt cyswllt yn y Cyngor gael ei sefydlu bod pethau wedi gwella.  Hysbyswyd yr Aelodau bod yr adeilad i agor Ddydd Gwener.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau gan Malcolm Stammers.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Gofynnodd yr Aelodau am gadarnhad at bwy y byddai Sefydliad y Sgowtiaid yn troi petai yna broblem gyda'r adeilad ac fe'u hysbyswyd bod yr adeilad wedi ei drosglwyddo gyda Phrydles Atgyweirio Lawn, ond y gallent wneud cais am gyllid grant pe byddent am wneud gwaith arall ar yr adeilad.

- Holwyd i'r aelodau os bu newid o gwbl yn y niferoedd oedd yn defnyddio'r lle ac fe'u hysbyswyd ei bod hi ar hyn o bryd yn rhy gynnar i ddweud, fodd bynnag roedd niferoedd wedi disgyn; roedd yr ysbryd yn isel yn enwedig heb ganolfan i gyfarfod ynddi.
- Rhagwelir y bydd y niferoedd yn dyblu gydag agor y lleoliad newydd.
- Trafododd yr aelodau ddefnyddio adnoddau ysgolion/cymuned ac y dylid gweithredu ysgolion ar ôl 4pm fel adnoddau cymunedol y gallai'r cyhoedd eu defnyddio.

- Diweddarwyd yr aelodau ar drosglwyddiadau canolfannau chwarae eraill:

  - Trelái
  - Mae Garddwyr Pentref Trelái ynghlwm â'r trosglwyddiad hwn, yn dilyn derbyn cymorth gyda'u cynllun busnes gan ACE.  Mae penawdau'r telerau wedi eu cytuno ac mae'r trosglwyddiad yn mynd rhagddo.  Hysbyswyd yr Aelodau mai prydles fyddai hon yn hytrach na Throsglwyddiad Ased Cymunedol;
  - Glan-yr-afon:  Cymdeithas Ddatblygu De Glan-Yr-Afon sydd wedi bod ynghlwm â'r trosglwyddiad hwn.  Mae Penawdau'r Telerau wedi eu cytuno ond mae mwy o waith ar ddiwydrwydd dyladwy yn mynd rhagddo ar hyn o bryd;

  - Adamsdown:
  - Roedd Seren yn y Gymuned wedi mynegi diddordeb cychwynnol ond heb fynd ar ei ôl wedyn.  Gobeithir y bydd cyfleoedd eraill yn codi yn yr ardal gyda'r datblygiadau ehangach sy'n digwydd yno.
  - Sblot:  Gofynnwyd i Cymunedau'n Gyntaf gynorthwyo'r rhai oedd ynghlwm wrth y cais hwn.

  - Llanrhymni:
  - Mae The Foxy Club wedi mynegi diddordeb yn ddiweddar ac mae hyn dan ystyriaeth.
  - Grangetown: Cytunwyd ar Gynllun Busnes gyda meithrinfa Grangetown, gyda rhywfaint o fuddsoddiad cyfalaf i'r ganolfan.  Bydd defnydd deuol yma, ysgol feithrin gyda'r dydd a defnydd cymunedol gyda'r nos.  Mae posibilrwydd hefyd o adeiladu estyniad.

- Holodd yr Aelodau am y sefyllfa bresennol o safbwynt y gefnogaeth oedd ar gael yn ystod y cyfnod pontio ac fe'u hysbyswyd bod cyllid ar gael ar gyfer 3 Swyddog Datblygu Cymunedol ond bod hwnnw wedi dod i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2016. Roedd adnoddau wedi eu darparu i alluogi rhywfaint o gefnogaeth i barhau.
- Mynegodd yr Aelodau eu pryder fod y cyllid bellach wedi dod i ben cyn trosglwyddo'r holl Gynlluniau Chwarae gan nodi fod angen cefnogaeth ar y broses bontio o hyd.

CYTUNWYD – Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet, y Cyfarwyddwyr a'r swyddogion perthnasol yn diolch iddynt am fynychu'r ar 18 Hydref 2016 ac i gyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

28 : ADRODDIAD BLYNYDDOL TEULUOEDD YN GYNTAF 2015/16

Croesawodd y cadeirydd y Cynghorydd Sue Lent (yr Aelod Cabinet dros y Blynyddoedd Cynnar, Plant a'u Teuluoedd, a'r Dirprwy Arweinydd), Tony Young (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol), Angela Bourge (Rheolwr Gweithredol, Adnoddau), Ceri George (Rheolwr Projectau Gwella – Atal a Phartneriaethau), Lee Richards (Gweithiwr Cyfranogi) a Chloe Burrage (Arolygydd Arweiniol Iau) i'r cyfarfod.

Dangoswyd fideo i'r Aelodau dan y teitl 'Young Inspectors of Families First' a baratowyd gan Grŵp yr Arolygwyr Ifanc gyda chymorth y Tîm Cynnwys Actif. Rhoddodd Chloe drosolwg o'r Grŵp i'r Aelodau, wedi iddi ddod yn rhan ohono yn y lle cyntaf drwy Teuluoedd Yn Gyntaf. Ar ôl hyfforddi, daeth yn Arolygydd Iau a bu'n rhan o archwiliad yng Nghanolfan Blant Trelái a Chaerau lle fel enghraifft o arfer dda y defnyddiwyd ffotograffau a ddangoswyd i blant bach i'w galluogi nhw i bwyntio at yr hyn oedd angen ei newid. Roedd hi hefyd wedi bod yn dyst i nifer o gyfweliadau ac roedd hi'n cefnogi pobl ifanc eraill i wneud yr un modd.

Hysbyswyd yr Aelodau bod rhai o'r arolygwyr ifanc yn sgil eu hoed erbyn hyn wedi symud ymlaen i Brifysgol a Choleg, ond llwyddwyd i gadw dau ohonyn nhw.

Cyflwynodd Ceri George yr adroddiad gan nodi y credir bod yr adroddiad yn dathlu'r gwaith da a wnaed ac yn rhoi cipolwg ar y gwahaniaethau y mae wedi ei wneud, ynghyd â gwybodaeth ynghylch pa newidiadau ' gellir eu gwneud i wella'r gwasanaethau gaiff eu darparu.

Cafodd Aelodau wahoddiad i wneud sylwadau, gofyn cwestiynau neu geisio eglurhad pellach am y wybodaeth dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Holodd yr Aelodau am eglurhad pellach ar os oedd hi'n bosib trosglwyddo cyllid o un project i un arall a chawsant wybod os oedd yna orgyffwrdd rhwng cyllid projectau y gellid defnyddio'r cyllid mewn ffyrdd eraill.
- Wedi dweud hynny, fel rheol unwaith i broffil cyllideb gael ei gosod nid oes cyfle i drosglwyddo cyllid. Nid oedd yn bosib trosglwyddo'r tanwariant o £40,000 ar staff – roedd rhaid ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru.
- Holodd Aelodau pam nad oedd Caerdydd, yn wahanol i'r rhelyw o awdurdodau, hyd yma wedi gosod unrhyw drefniadau pontio yn eu lle ar gyfer diwedd y cytundeb yn 2017 ac fe'u hysbyswyd taw'r cyngor dderbyniwyd oedd

na ellid eu gosod ar waith hyd nes y derbynnid arweiniad ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf yn y dyfodol ynghyd â gwybodaeth gyllid.

Tra bod ymestyn y cytundeb yn fater i'r Cabinet, mae modd rhoi hysbysiad i ymestyn ac mae swyddogion wedi cadarnhau eu bod yn ymrwymedig i fwrw ati cyn gynted ag y bo modd heb gyfaddawdu ar uniondeb.

- Mynegodd Aelodau eu pryder efallai na fydd Teuluoedd yn Gyntaf mewn sefyllfa i barhau i gynorthwyo teuluoedd mewn angen yng ngoleuni'r tanwariant ar staff a nifer y staff oedd yn gadael.
- Dywedodd swyddogion eu bod hwy yn fodlon y bydd Teuluoedd yn Gyntaf yn parhau er efallai y bydd y fformat ychydig yn wahanol.
- Nododd Aelodau fod defnydd o'r Proffil Asesu Bregusrwydd (PAB) mewn Ysgolion yn derbyn cyllid pellach gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd gan holi a fydd y defnydd ohono yn parhau os caiff cyllid Teuluoedd yn Gyntaf ei ddileu. Dywedodd swyddogion fod PAB ar hyn o bryd yn cael ei gyllido gan Teuluoedd Yn Gyntaf a bod llawer o waith caled sy'n cael ei wneud yn cael ei gefnogi gan grantiau o ryw fath a'u bod yn ymwybodol fod teuluoedd yn Gyntaf, rhianta a phobl ifanc wrth galon y rhaglen newydd.

- Gwnaeth yr Aelodau gyfeiriad at adroddiad ar Raglen Teuluoedd Mewn Trafferth yn Lloegr a holi os oedd gwersi i'w dysgu yn nhermau canlyniadau y gellid eu mesur oherwydd tra bod nifer o deuluoedd yn sôn am rywfaint o welliant sut mae hynny yn cael ei asesu mewn gwirionedd.
- Dywedodd y swyddogion nad oedd sicrwydd, bod modd gwrthddweud y datganiadau, er bod Dechrau'n Deg yn rhaglen debyg ac wedi bod yn llwyddiannus yn newid canlyniadau dros y tymor hir.
- Holodd yr Aelodau'r swyddogion a oeddent yn fodlon eu bod mewn sefyllfa i adnabod a helpu'r teuluoedd hynny mewn angen, yn enwedig y teuluoedd anodd i'w cyrraedd. Yn ôl y swyddogion, tra na bod modd gorfodi teuluoedd i chwilio am na derbyn cymorth, gall ysgolion, ymwelwyr iechyd ac asiantaethau tebyg, ddod i gyswllt a mynegi neu gofnodi unrhyw bryderon. Mae gwaith cymunedol da yn hollbwysig.

- Eglurodd swyddogion tra bod Aelodau wedi gobeithio gweld lleihad yn nifer y plant oedd yn Derbyn Gofal neu'n defnyddio'r system ofal, mae hi, fel y'i disgrifiwyd gan un barnwr, yn 'system mewn argyfwng' ac mae llawer mwy o waith i'w wneud.

CYTUNWYD – Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet, Cyfarwyddwyr a swyddogion perthnasol yn diolch iddynt am fynychu'r cyfarfod.

29 : DIWEDDARIAD GOHEBU

Darparodd yr adroddiad y diweddaraf ar yr ohebiaeth a chrynodeb o'r ymatebion a anfonwyd atynt.

CYTUNWYD: Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

30 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc am 2.30pm ar Ddydd Mawrth 8fed o Dachwedd 2016.

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified